

# Sul y Blodau

## Darllen: Mathew 21: 6–11

Pan ddaw Sul y Blodau yn ei dro, mae'n anodd gwneud pen na chynffon o'r digwyddiad. Ar y naill law mae'n ddiwrnod o ddathlu – dathlu Iesu'r Brenin yn marchogaeth i'r brifddinas, Jerwsalem, ar gefn ebol asyn. Mae'r dorf, yn blant ac oedolion, yn taenu eu dillad a changhennau'r palmwydd ar y ffordd i ddangos eu croeso i'r Brenin Iesu. Mae'r dorf yn bloeddio eu cymeradwyaeth ac mae'r Brenin yn marchogaeth yn sŵn 'Hosanna' ei bobl. Geiriau'r hen broffwyd Sechareia oedd yn adleisio trwy furiau'r hen ddinas, 'Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!' (Mathew 21:9)

Ond ar y llaw arall, onid tân siafins oedd y cyfan? Tybed oedd y dorf wedi camddeall a chamddechongli ei neges? Dewisodd ebol asyn yn fwriadol – arwyddlun o ddiymadferthedd, o wyleidd-dra a gostyngaidrwydd. A'r dorf yn bloeddio ei chymeradwyaeth.

Cennad heddwch, tangnefedd, cymod a brawdgarwch a farchogodd i mewn i Jerwsalem ar Sul y Blodau. Gwyddai'n iawn beth oedd ei dynged. A dyna pam ei bod yn anodd dathlu ar Sul y Blodau. Dydi dynolryw erioed wedi gallu dygymod â gwyleidd-dra, ufudd-dod, troi'r foch arall a cherdded yr ail filltir. Geirfa a gweithredoedd y llwfr, y di-asgwrn cefn a'r Sioni naill ochr yw'r elfennau hyn i'r byd. A chan na all dyn lawn ddeall nac amgyffred y pinaclau hyn mae Sul y Blodau'n symbol o fethiant affwysol, o ddallineb a diffyg crebwyll y natur ddynol dros y canrifoedd. O edrych yn ôl, oni fyddai'n well pe na bai gweithred Sul y Blodau wedi digwydd o gwbl? Mae rhyw orfoledd ffug wedi digwydd. Bloeddio a chyhwanf canghennau'r palmwydd i ddim byd! Ychwanegu at ei dosturi a'i ofid wnaeth y digwyddiadau – roedd y dorf wedi cam ddechongli ei weinidogaeth yn llwyr.

Felly, marchogodd i'r ddinas dan gwmwl. Y cwmwl sy'n cyniwair pan fo'ch cenadwri a'ch gweithredoedd yn yfflon. Y boen o gael eich

camddeall. Ond doedd dim troi'n ôl bellach. Aeth Iesu i mewn i ffau ei wrthwynebwy, cysegr ei Dad. Dymchwelodd y byrddau a chyhuddodd weision Annas o droi tŷ ei Dad yn ogof lladron. Yno y mynnai aros ymhlith ei erlidwyr, pawb oedd wedi camddeall ei neges – yn fonedd a gwrêng. Cythruddodd y crefyddwyr a chynhyrfodd y werin. Cornelwyd ef gan archoffeiriad a phrocuradur. Fe'i cafwyd yn euog. Daeth bonllfau Sul y Blodau i'w boenydio a'i ofidio, 'Ai ti yw Brenin yr Iddewon?' oedd cwestiwn Pilat iddo. Ildiodd yn ufudd i'r Tad. Ni allai wneud dim amgen. Hon oedd ei awr fawr. Nid awr Annas na Chaiaffas na Philat oedd hon. Awr Iesu. Awr Duw. Iddo ef roedd gwyleidd-dra'n drech nag arwriaeth, ac ufudd-dod yn drech na hunanoldeb.

Ar Sul y Blodau, mor hawdd yw cael ein hudo gan fonllfau'r dorf a gorymdeithio'n hyderus a beiddgar yn enw Iesu'r Brenin. Yn hytrach, gwisgwn fentyll gwyleidd-dra a gostyngeddwydd, a cherddwn ymlaen gam wrth gam tua'r deyrnas sy'n dyrchafu addfwynder, tangnefedd, purdeb a chyfiawnder. Dathlwn yr elfennau hyn ar Sul y Blodau – elfennau syywaeth sy'n anghyfarwydd i fyd ac eglwys.

### **Myfyrdod pellach:**

A ddylen ni gyfeirio at Iesu fel y 'brenin'? Ydi'r enw ynddo'i hun yn gamarweiniol i ddisgrifio cenhadaeth Iesu?

Pa ansoddair/ansoddeiriau y dylen ni eu defnyddio pan fyddwn yn cyfeirio at Iesu?

# Sul y Blodau

## Darllen: Marc 11:15–17

Ar yr ail ar bymtheg o Orffennaf 1966 pregethwyd y bregeth ryfeddaf erioed yng Nghadeirlan Sant Pedr yn Genefa. Bu John Calfin ei hun yn weinidog ac yn bregethwr yn yr Eglwys hon. Disgwyliwyd pregethu nerthol o'r pulpud, a'r bore hwnnw roedd aelodau o Gynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yn bresennol yn y gwasanaeth. Ond roedd y pulpud yn wag. Ac eto fe welwyd y pregethwr, nid yn y pulpud ond ar sgrin deledu yng Nghadeirlan Sant Pedr. Er mai ef oedd i fod i bregethu, roedd yn Chicago y bore hwnnw yn ceisio cymodi rhwng y du a'r gwyn yng nghanol y terfysgoedd oedd yn ferw ar y pryd. Y pregethwr oedd Martin Luther King. Gellid dweud fod rhywbeth mwy grymus a mwy nerthol nag unrhyw bregeth wedi digwydd y diwrnod hwnnw, sef yr hyn oedd y pregethwr yn ei wneud. Gweithredu yn hytrach na siarad. Gwelwyd hyn droeon yng ngweithredoedd proffwydi'r Hen Destament – fel y proffwyd Jeremeia'n gwisgo iau fel symbol o gaethwasiaeth ac yn prynu darn o dir fel symbol o obaith. Dyma'n union a wnaeth Iesu ar Sul y Blodau.

Roedd y ddinas yn ferw o bererinion oedd wedi dod i ddathlu'r Pasg, ac mae yntau'n marchogaeth i'r ddinas ar gefn asyn – symbol o dangnefedd a heddwch. Er i'r dorf ymateb yn gadarnhaol, llwyddodd Iesu i ddangos nad ef oedd y Meseia yr oeddent yn ei ddisgwyl. Yn fuan iawn, trodd y bonllfau'n wawdio a dilorni. Pwrpas ei ddyfodiad a'i weinidogaeth oedd sefydlu cymod, tangnefedd a chytgord yn hytrach na disodli'r gorthrwm mawr, sef grym yr Ymerodraeth Rufeinig. Yng ngweithred Sul y Blodau gwelai'r dyrfa beth oedd ei amcanion a'i nod.

Aeth i'r deml, canolbwynt y grefydd Iddewig. Mae'n bur debyg iddo glywed geiriau'r hen broffwyd Malachi yn atseinio yn ei glustiau, 'Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml ... Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys? Y mae fel tân coethydd ac fel sebon golchydd' (Malachi 3:1–2). Nid yn gymaint bod Iesu wedi protestio'n

erbyn gweithredoedd anghyfiawn Annas, y cyn-archoffeiriad a'i debyg, ond yn hytrach fod y gweithredoedd anghyfiawn hyn yn digwydd yng nghyntedd y Cenhedloedd, cynteddoedd y gwledydd. Yn y deml y diwrnod hwnnw roedd Iesu'n apelio yn enw'r cenhedloedd i gyd, ar i'r rhagfuriau a'r ffiniau gael eu dymchwel unwaith ac am byth ac i'r deml ddod 'yn dŷ gweddi i'r holl genhedloedd' (Marc 11:17). Yn union fel roedd Martin Luther King yn apelio yn ei freuddwyd fawr am i'r du a'r gwyn gerdded law yn llaw, felly roedd Iesu yn y deml yn apelio at yr elfen gyfanfydol ymhlith ei bobl ei hun a'r traddodiad Iddewig. Yn ôl Marc, pan fu farw Iesu 'rhwygwyd llen y deml yn ddwy o'r pen i'r gwaelod' (Marc 15:38). Mae'r mynediad i'r cysegr sancteiddiolaf yn awr yn agored led y pen, ac yno gall pawb weld a themlo calon cariad Duw tuag at bawb – y du a'r gwyn, y tlawd a'r cyfoethog. Pawb.

### **Myfyrdod pellach:**

Pa mor groesawus ydi'ch eglwys chi i dderbyn pawb?

Ai mynd allan o'i ffordd a wnaeth Iesu i godi gwrychyn yr awdurdodau?

# Sul y Blodau

## Darllen: Mathew 21:5

Heddiw dilynwn y dorf i mewn i'r ddinas. Ond mae'r orymdaith hon yn wahanol. Hyd y gwelwn does yna'r un poster i'w weld yn unman na'r un hawliad na gorchymyn i'w glywed o du'r dorf. Pwrpas yr orymdaith yw tynnu sylw'r bobl gyffredin, hynny yw y bobl nad oedd ganddyn nhw unrhyw fath o awdurdod. Dyma orymdaith Sul y Blodau. Does neb yn hawlio mwy o gyflog, neb yn bloeddio am amodau byw gwell i'r difreintiedig, neb hyd yn oed yn protestio yn erbyn yr Awdurdod Iechyd! Gorymdaith araf, heddychlon, a'r mul bach sy'n pennu'r cyflymder. A dydi'r un sydd ar gefn y mul bach ddim yn bygwth neb â'i hawliau. Gofynnwch i'r glowyr, y dynion tân, dynion y rheilffordd a'r athrawon ai dyma'r ffordd i orymdeithio. Mae'r gorymdeithio gorau yn mynd law yn llaw ag ymladd yn galed dros hawliau a mynd ar streic fel bo'r angen. Ac mae'r canlyniadau'n tystio i hynny – cyflogau ac amodau gwaith gwell. Yng ngoleuni'r fath ganlyniadau, mae gorymdaith Sul y Blodau yn jôc.

Ac ym marn yr awdurdodau yn Jerwsalem, roedd y cyfan yn bathetig. Mae'n rhaid cofio bod y genedl Iddewig dan iau'r Ymerodraeth Rufeinig, a'r unig ffordd i ddiddymu a dileu'r grym hwn oedd trwy ymosod ac ymladd. Ond roedd Iesu o Nasareth yn pledio ffordd arall. Pwrpas gweinidogaeth Iesu oedd dangos i'r genedl nad treisio a lladd oedd y ffordd orau ond argyhoeddi'r genedl, a'i hatgoffa trwy ei hysgrythurau mai cyfiawnder, gwirionedd a thrugaredd oedd nodweddiion y deyrnas.

Digwyddiadau Sul y Blodau oedd pregeth weladwy Iesu i argyhoeddi'r bobl gyffredin a'r awdurdodau. Dyma'i apêl olaf. Dyna pam y marchogodd mor dangnefeddus ar gefn ebol asyn. Mae'n pledio â nhw, 'wnewch chi gerdded fy llwybr i, neu a ydych am fynnu troedio eich llwybr chi – llwybr trais a llwybr talu'r pwyth yn ôl?' Dyna'r dewis. Dyna'r unig ddewis. Gwyddai'n iawn beth fyddai dewis awdurdodau Jerwsalem. Ymhen y rhawg, a'r dagrau'n llifo, safodd i edrych ar y ddinas. Gwiredwyd ei eiriau yn y flwyddyn OC 70 pan adawyd Jerwsalem yn garnedd.

Ym mhob cymdeithas, ym mhob cyfnod mae'r dorf yn barod i floeddio, 'I'r gad, i'r frwydr, ymladdwn i'r diwedd'. Ond mae yna unigolyn ym mhob cyfnod sy'n dal i farchogaeth ebol asyn gan alw am ddilyn llwybr arall. Erbyn diwedd yr wythnos roedd y gŵr a farchogodd i Jerwsalem wedi'i groeshoelio. Ac ar y groes gwrthododd daro'n ôl, ac ni chlywyd yr un gair o gasineb. Hawdd iawn fyddai iddo regi'r milwyr oedd yn pwyo'r hoelion i'w gorff a'r terfysgwr oedd yn ei watwar. Gallai'n hawdd gyhuddo'i ddisgyblion o'i adael yno ar ei ben ei hun. Ond gwrthododd wneud hynny. Beth wnaeth o felly? Caru, maddau, cofleidio a thrugarhau. Dyma nodweddion y deyrnas. Fel hyn mae'n rhaid byw meddai Iesu ar Sul y Blodau a Gwener y Groglith.

### **Myfyrdod pellach:**

Ai cydnabod Iesu'n Dywysog Tangnefedd yw amod y cam nesaf ymlaen yn hanes ein byd?

Tybed a wnaeth Iesu fwy o ddrwg wrth farchogaeth ar ebol asyn i'r ddinas?